CA 29
Ymgynghoriad ar asedau cymunedol
Consultation on community assets
Ymateb gan: Cymdeithas yr Iaith
Response from: Cymdeithas yr Iaith

**Ymateb Cymdeithas yr Iaith i ymchwiliad y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai i asedau cymunedol**

1. Mae Cymdeithas yr Iaith yn fudiad sy'n ymgyrchu'n ddi-drais dros y Gymraeg a holl gymunedau Cymru.

2. I ddechrau hoffem nodi na ddylid ystyried asedau mewn termau economaidd yn bennaf, ond mewn termau cymunedol - eu gwerth a'u budd i'r gymuned.

3. Dydy tai ac asedau dan arweiniad neu berchnogaeth gymunedol ddim mor gyffredin yng Nghymru ar hyn o bryd, ond mae ymddiriedolaethau tir cymunedol, cwmnïau tai cydweithredol a phrosiectau tebyg yn boblogaidd ar draws Ewrop.

4. Bu cynnydd mewn diddordeb yn Yr Alban a Lloegr dros y blynyddoedd diwethaf, wedi i Lywodraethau'r Alban a'r DU ymyrryd trwy ddeddf a thrwy greu cronfeydd penodol.
   Yn Yr Alban yn enwedig mae caniatáu mwy o ryddid i gymunedau wedi galluogi grwpiau cymunedol i gyflenwi miloedd o gartrefi newydd.

5. Yma yng Nghymru mae rhai enghreifftiau o fentrau cymunedol llwyddiannus sydd wedi defnyddio'r cyfle i ddal gafael ar dafarn neu adeilad lleol, sydd wedi helpu i gynnal neu adfer y gymuned.

6. O wneud y broses yn haws ac o flaenoriaethu grwpiau cymunedol gallai annog perchnogaeth gymunedol fod o gymorth i fynd i'r afael â phroblem tai yma yng Nghymru.

7. Ni ddylid ystyried asedau fel tir na thai yn unig chwaith, mae enghreifftiau o fentrau cymunedol sydd yn creu ynni trwy dyrbinau gwynt neu ddŵr.
   Er hynny mae mwy o rwystrau a chymhlethdodau yn wynebu mentrau cymunedol lle mae'r gymuned ei hun wedyn yn elwa o’r buddsoddiad.

8. Gyda’r argyfwng hinsawdd a chynnydd mewn costau tanwydd mae modelau amgylcheddol o greu ynni yn hollbwysig, yn enwedig ar lefel gymunedol.

9. Credwn felly ei bod hi’n bwysig i fentrau cymunedol sy’n creu ynni er budd y gymuned gael yr un chwarae teg ag unrhyw fentrau cymunedol eraill.

10. Yn yr Alban, ac i ryw raddau yn Lloegr, mae polisïau’n bodoli i alluogi trosglwyddo tir ac asedau i berchnogaeth gymunedol a allai osod cynseiliau defnyddiol gyda’r bwriad o gynyddu’r grym sydd gan gymunedau yng Nghymru dros dir ac asedau.

11. Mae Deddf Diwygio Tir yn cynnwys polisi Hawl Cymunedol i Brynu yn yr Alban yn galluogi grwpiau cymunedol sy’n llwyddo i gofrestru buddiant cymunedol mewn tir, i gael yr opsiwn cyntaf i’w brynu pan gynigir y tir cofrestredig i’w werthu. Gall cyrff cymunedol gofrestru diddordeb mewn unrhyw dir, megis eglwysi, tafarndai, stadau, siopau gwag, coetir, caeau a mwy. Mae buddiant cofrestredig mewn tir yn para am

bum mlynedd, a gellir adnewyddu buddiant cofrestredig ar ddiwedd y pum mlynedd.

12. Ymhellach nid oes angen perchennog parod ar dir Hawl i Brynu er mwyn hybu datblygiad cynaliadwy. Mae'n caniatáu i gyrff cymunedol sydd â buddiant cofrestredig orfodi gwerthu tir, trwy Weinidogion yr Alban.

13. Yn yr un modd ymestynnodd Deddf Grymuso Cymunedau (Yr Alban) 2015 rym cymunedol trwy alluogi grwpiau cymunedol i wneud cais i Weinidogion yr Alban i ganiatáu iddynt brynu tir wedi'i adael/ei esgeuluso, hyd yn oed os nad yw'r perchennog eisiau gwerthu.
Ac os nad yw'n bosibl i gyrff cymunedol eu hunain brynu'r tir gallant enwebu prynwr trydydd parti.

14. Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno polisi tebyg i'r Hawl Cymunedol i Brynu yn Yr Alban fel cam pwysig tuag at gryfhau hawliau perchnogaeth cymunedau a lliniaru effeithiau niweidiol y farchnad agored ar gynaliadwyedd cymunedau a'r Gymraeg. Gallai hyn hefyd helpu i dyfu'r sector ynni adnewyddadwy, diogelu'r amgylchedd naturiol a galluogi adfywiad asedau cymunedol pwysig at ddibenion eraill.

15. Mae mentrau tai cymunedol a chydweithredol yn wynebu her sylweddol i godi arian ar gyfer prynu tir ac eiddo ac i ddatblygu tai fforddiadwy.
Mae grantiau ar gael ac mae codi arian trwy gyfandaliadau ac ati yn bosibl ond yn achos cartrefi fforddiadwy, byddai angen i fentrau tai cymunedol a chydweithredol gael mynediad at gymorth ariannol ychwanegol. Gallai ddiffyg profiad neu asedau unrhyw fenter newydd eu rhwystro rhag cael mynediad at fenthyciadau masnachol. O ganlyniad dylai Awdurdodau Lleol a Llywodraeth Cymru gynnig cymorth ariannol ar ffurf grantiau, ecwiti a benthyciadau.

16. Nodwn fel esiampl, Cronfa Dir Yr Alban, sydd yn ariannu prynu tir ac adeiladau a all gyfrannu at gynaliadwyedd cyffredinol cymuned neu alluogi cadw neu ddarparu gwasanaethau lleol allweddol. Gall y Gronfa gefnogi prynu llawer o fathau o dir ac adeiladau yn amrywio o ystadau mawr a choedwigaeth i siopau a hybiau cymunedol. Rhaid i unrhyw dir neu adeilad a brynir allu darparu lefel o incwm sy'n sicrhau nad yw'n dod yn rhwymedigaeth i'r gymuned yn y tymor hir.

17. Mae Llywodraeth yr Alban wedi ymrwymo £10 miliwn y flwyddyn i'r Gronfa ar hyn o bryd, ac wedi addo dyblu hyn i £20 miliwn y flwyddyn erbyn diwedd y tymor seneddol hwn. Gall grwpiau cymunedol wneud cais am hyd at £1 miliwn fesul cais: fel arfer mae grantiau'n amrywio o £15,000 i £650,000. Fel cam cyntaf gallant wneud cais am gyllid cymorth technegol tuag at gostau cyngor arbenigol a/neu ffioedd proffesiynol gan gynnwys paratoi astudiaethau dichonoldeb a chynlluniau busnes, prisiadau ac arolygon yn ogystal â rhai costau tuag at ymgysylltu â'r gymuned. Yr yr ail gam gallant wneud cais am gyllid i brynu asedau rhwng £5,000 - £1,000,000.

18. Dros oes y Gronfa, rhagwelir y bydd y cyfraniad cyfartalog at gostau prosiect cymwys yn 80%. Mae lefelau buddsoddiad a gynhyrchir yn lleol yn ddangosydd pwysig o gefnogaeth a chapasiti lleol. Fel isafswm, dylai 5% o'r cyllid ddod o ffynonellau eraill gan gynnwys ymdrechion codi arian y grŵp cymunedol, cyfranddaliadau cymunedol,

gostyngiadau wedi'u negodi ar y prisiad, neu arianwyr eraill.

19. Dylai Llywodraeth Cymru ariannu Cronfa Tir Cymunedol fel rhan o'r Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg (yn debyg i Gronfa Dir Yr Alban), yn ogystal â Chyfleuster Benthyciadau Cylchdro ar gyfer mentrau tai cymunedol a chydweithredol Cymraeg tuag at gostau adeiladu neu adnewyddu, ffioedd proffesiynol ac ati. Bydd y cronfeydd hyn yn galluogi mentrau tai cymunedol i wireddu'r cyfleoedd a fydd yn cael eu creu drwy gyflwyno Hawl Cymunedol i Brynu fel yr ydym wedi'i gynnig.

20. Mae angen sicrhau amser a chefnogaeth ddigonol i fentrau cymunedol ymchwilio i a cheisio am grantiau.

21. Cyfeiriwn eto at fentrau cymunedol llwyddiannus sydd wedi cynnal ymgyrchoedd codi arian dros gyfnod o amser ac wedi cyfrannu i'w cymuned mewn ffordd tu hwnt i'r economaidd.

22. Dylai Llywodraeth Cymru dynnu cronfeydd data presennol, fel Cofrestrfa Tir EM ac Is-adran Tir Llywodraeth Cymru, ynghyd er mwyn creu cofrestrfa/cronfa ddata perchnogaeth tir, sy'n rhoi gwybodaeth i'r cyhoedd am berchnogaeth tir/trafodion tir yng Nghymru. Dylai gynnwys gwybodaeth am gytundebau ar opsiynau lle gallai datblygiad ddigwydd yn y dyfodol. Dylai nodi'n glir ble mae'r tir sy'n eiddo i gyrff cyhoeddus, yn ogystal â thirfeddianwyr preifat a lle mae tir heb ei hawlio. Yn ogystal dylai'r gofrestrfa fod yn gyfredol ac yn dryloyw.

23. Ar hyn o bryd mae'r data mapio, data nodweddion eiddo, a data trafodion eiddo yn cael eu casglu gan wahanol asiantaethau'r llywodraeth ac nid ydynt yn hawdd i grwpiau cymunedol gael gafael arnynt.

24. Gallai cryfhau hawliau cymunedol i brynu a pherchnogi tir ac asedau leihau nifer y rhwystrau a wynebir gan grwpiau tai a arweinir gan y gymuned. Mae pobl leol yn fwy tebygol o ystyried effaith a budd unrhyw ddatblygiad a'r math o ddatblygiad sydd ei angen nag y byddai datblygwr preifat.

25. Mae'n glir bod mentrau cymunedol yn cryfhau cymunedau. Ond mae eu heffaith yn mynd ymhellach, o greu ynni adnewyddadwy i leddfu problemau tai ar draws Cymru felly dylid cryfhau hawliau cymunedol a hwyluso'u gwaith.

Cymdeithas yr Iaith
Mehefin 2022